



# Diweddariad Cymunedol

Hydref 2018



## Yn y rhifyn hwn

**T1** Cyflwyno Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd newydd ar gyfer yr Awdurdod

**T2** 'Amserau Tanllyd' 'Ain't No Mountain High Enough'

**T3** Profiad Gwaith Sgiliau ar Waith Llwyddiant Casglu Sbwriel

**T4** Arian Chwarae Teg Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Cronfa Datblygu Cynaliadwy

**T5** Goresgynwyr y Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog - Y Gyrchfan Orau Partneriaeth Defnydd Tir y Mynyddoedd Duon

**T6** Safleoedd Oes Efydd wedi'u gwarchod Geolwybr Newydd

**T7** Digwyddiadau

**T8** Rhestr A-Y Cysylltiadau'r Awdurdod

## Helo a chroeso

i rifyn Hydref 2018 o Newyddion y Gymuned gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Yn ystod Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol yr Awdurdod ar 30 Gorffennaf, etholwyd Ed Evans yn Gadeirydd a'r Cynghorydd Gareth Ratcliffe yn Ddirprwy Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Mae Ed yn Gyfarwyddwr Cymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil (CECA) Cymru, ac mae ganddo tua 30 mlynedd o brofiad o ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau technegol a datblygu polisi hyd at lefel uwch ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat yng Nghymru. Cafodd ei benodi i'r Awdurdod yn 2011 gan Lywodraeth Cymru ac ef oedd Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy yn 2017/18. Mae'n ymddiriedolwr elusen leol sy'n helpu plant ac oedolion anabl ac mae'n Gadeirydd Cadwch Gymru'n Daclus.

Mae Ed yn rhugl ei Gymraeg, a chafodd ei eni a'i fagu yng Ngwynedd ac mae'n dal i fod yn bartner mewn busnes ffermio teuluol ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Fodd bynnag, mae wedi bod yn byw yng Nghaerdydd am y 30 mlynedd diwethaf gyda'i wraig a'i dri o blant.

Meddai Ed: "o ran fy rôl fel Cadeirydd a gweithio gydag aelodau, fy amcanion yw sicrhau:

- bod yr holl aelodau'n cael pob cyfle i gyfrannu'n llawn i'r broses o wneud penderfyniadau
- bod pob mater yn cael ei drafod yn llawn; a
- bod y rhanddeiliaid a'r partneriaid yn hyderus bod yr holl faterion sy'n cael eu cyflwyno inni yn cael eu trin yn agored, yn dryloyw ac yn deg.

O ran fy mlaenoriaethau sefydliadol ar gyfer y 12 mis nesaf fy amcanion yw:

- sicrhau bod y Prif Weithredwr yn cael cefnogaeth lawn i sefydlu strwythur trefniadol ar gyfer y dyfodol a bod ein trefniadau llywodraethu yn cefnogi hyn
- gofalu ein bod yn gweithredu mor effeithlon ag sydd bosibl a bod yr arian sydd gennym yn cael ei ddefnyddio er budd y bobl sy'n byw, sy'n gweithio ac sy'n chwarae yn y lle arbennig yma
- gweithio gyda'n partneriaid i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol a gwneud yr ardaloedd hyn yn esiamplau o gymunedau byw cynaliadwy
- ymgysylltu â'n cymunedau o fewn y Parc i gwrdd â'r heriau sy'n wynebu pob un ohonom ar ôl Brexit

Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i gyd eleni."

Uchod: O'r Chwith i'r Dde: Gareth Ratcliffe, Ed Evans a Julian Atkins, Prif Weithredwr.





## Grwpiau cymunedol yn mwynhau amser 'tanlyd' yn y Gwaith Powdr Gwn

**Yr haf yma, mae grwpiau cymunedol yn mwynhau teithiau cerdded dan arweiniad gyda thîm Cymunedau Awdurdod y Parc Cenedlaethol o amgylch Gwaith Powdr Gwn Glynedd ym Mhontneddfechan.**

Mae'r ymweliadau yma yn rhan o brosiect sy'n cael ei ariannu gan y Loteri Trefnadaeth, sy'n cael ei reoli a'i weithredu gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac sy'n canolbwyntio ar warchod y prif strwythurau sydd ar ôl yno a dod â hanes cyfoethog y safle yn ôl yn fyw.

Mae amrywiaeth o grwpiau cymunedol sy'n cynnwys pobl rhwng 7 a 70 oed, yn darganfod mwy am dreftadaeth ddiwydiannol yr ardal a'i phwysigrwydd amgylcheddol, yn ogystal â mwynhau gweithgareddau a mynd allan i grwydro yn ystod yr haf. Dyma ddywedodd Lawrence Burton, arweinydd grŵp Byddin yr Iachawdwriaeth. Daeth ef draw gyda chriw o bobl ifanc sy'n cael cymorth yn eu hostel yn Northlands: "Cawsom ddiwrnod ardderchog. Roedd yn werth ymweld â'r lle ac rydym yn gobeithio dychwelyd yn fuan."

**Er mwyn cael rhagor o wybodaeth ewch i <http://www.breconbeacons.org/gunpowderworks>**



## Dilynwch y Geolwybr ar Instagram!

Mae gan Geoparc Byd-eang UNESCO Fforest Fawr ei dudalen Instagram ei hun. Dilynwch @geoparcyfforestfawr a rhannwch eich lluniau o orllewin y Parc Cenedlaethol drwy dagio #geoparcyfforestfawr.

Meddai'r Cyngorydd Ratcliffe:

"Rydwn i wedi byw yng ngogledd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog am dros 35 o flynyddoedd. Rydw i wedi bod yn gysylltiedig â'r gwasanaeth cyhoeddus am fwy na 20 mlynedd, gan ddechrau fel cwnstabl arbennig gyda Heddlu Dyfed Powys cyn ymuno â'm cyngor tref lleol ac yna symud ymlaen i gynrychioli'r Gelli fel cyngorydd sir ers 2008. Rydw i wedi gwasanaethu ar nifer o bwyllgorau a hefyd wedi dal y portffolio Adnoddau Dynol ar Fwrdd a Chabinet Cyngor Sir Powys. Rydw i hefyd wedi gwasanaethu deirgwaith ar Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ers bod yn gyngorydd ac wedi dal nifer o swyddi. Y llynedd roeddwn yn Gadeirydd y Gweithgor Llywodraethu a Datblygu Aelodau a awgrymodd drefn newydd a fydd yn gallu addasu i amgylchedd y Llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol sy'n newid yn barhaus, wrth i gyllidebau grebachu ac wrth inni fynd i'r afael â heriau ar ôl Brexit.

Rydwn i'n edrych ymlaen at weithio gydag aelodau, swyddogion a holl gymunedau'r Parc i sicrhau ein bod yn gallu cefnogi'r gymuned ffermio yn ogystal â'n trefi a'n pentrefi er mwyn sicrhau bod genym economi lleol cryf y gall cenedlaethau'r dyfodol fuddsoddi ynddo."

Os hoffech gael eich enw ar ein rhestr bostio, neu os hoffech gyfrannu at rifynnau'r dyfodol, cofiwch gysylltu â'r Tîm Cymunedau drwy gyfrwng y Gwyddoniadur Gwasanaethau ar ddiwedd y cylchlythyr hwn. Mae'r cylchlythyr ar gael ar lein hefyd ar <http://www.bannaubrycheiniog.org/cymunedau/diweddariad-cymunedol/>



Pobl yn Gyntaf Caerdydd a Pobl yn Gyntaf Powys ar Fynydd Illtud.

## 'Ain't No Mountain High Enough' yw arwyddgan grŵp Pobl yn Gyntaf Caerdydd!

**Yn ddiweddar, llwyddodd Pobl yn Gyntaf Caerdydd, grŵp hunan-eiriolaeth sy'n cael ei redeg gan ac ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, i gael arian ar gyfer eu prosiect 'Ain't No Mountain High Enough' gan Brosiectau'r Bobl y Loteri Genedlaethol drwy bleidlais gyhoeddus.**

Mae'r arian yma wedi caniatáu iddynt ailadrodd ac ymestyn prosiect cerdded llwyddiannus y llynedd gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Gyda'r bwriad o wella iechyd a lles, mae'r grŵp yn trefnu deg taith gerdded o amgylch Bannau Brycheiniog dros y chwe mis nesaf, yn ogystal â theithiau cerdded yn Eryri a Sir Benfro, gan wahodd grwpiau Pobl yn Gyntaf eraill i ymuno â nhw. Mae rhai aelodau eisoes wedi cwblhau cwrs hyfforddi achrededig mewn sgiliau awyr agored sy'n cael ei drefnu gan staff Tîm Cymunedau Awdurdod y Parc Cenedlaethol. O ystyried bod llawer o'r teithiau cerdded wedi eu cyflawni yn barod, maen nhw'n sicr yn gyflawnwyr 'uchel'!

**Os hoffai eich grŵp cymunedol chi ddatblygu prosiect tebyg neu hyfforddiant sgiliau gydag Awdurdod y Parc, cysylltwch â Francesca Bell, Swyddog Datblygu Cymunedol. [francesca.bell@beacons-npa.gov.uk](mailto:francesca.bell@beacons-npa.gov.uk) Ffôn: 01874 624437 i gael manylion a chyngor ariannu.**



## Pobl ifanc yn dysgu sgiliau newydd ar raglen profiad gwaith

**Mwynhaodd wyth o bobl ifanc o bob rhan o'r Parc a thu hwnt, gynllun Profiad Gwaith Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn mis Gorffennaf.**

Treuliwyd tri diwrnod yn y Gwaith Powdr Gwn ym Mhontneddfechan, yn gweithio gyda'r staff ar y safle, yn clirio'r hen Dŷ Cywasgu Powdr a dysgu sut i ddefnyddio'r offer arolygu diweddaraf i gofnodi'r hyn sy'n weddill. Hefyd, bu'r bobl ifanc yn darganfod mwy am goed ac anifeiliaid yr ardal gydag ecolegydd.

Treuliodd y bobl ifanc y diwrnod olaf yn gweithio gyda thîm cyfathrebu'r Awdurdod, yn drafftio datganiadau i'r wasg a chynnwys cyfryngau cymdeithasol oedd yn gysylltiedig â'u profiadau, a hefyd dysgu sut y gellir defnyddio technoleg i ddarparu profiadau ardderchog i ymwelwyr. Dywedodd Julian Atkins, Prif Weithredwr yr Awdurdod: "Mi hoffwn i ddiolch i'r bobl ifanc sydd wedi cymryd rhan yn y rhaglen profiad gwaith yma am eu gwaith caled. Rydw i'n gobeithio bod yr amser byr maen nhw wedi'i dreulio gyda ni wedi rhoi cipolwg iddyn nhw ar ein Parc Cenedlaethol ac wedi eu hysbrydoli ar gyfer eu dewisiadau gyrfaoel yn y dyfodol."

**Os ydych chi rhwng 15 a 18 oed ac yn cymryd diddordeb yn ein rhaglen profiad gwaith ar gyfer 2019, cysylltwch â Lora Davies [lora.davies@beacons-npa.gov.uk](mailto:lora.davies@beacons-npa.gov.uk) Ffôn: 01874 620463**



Ella a Paul Chapman, y warden gyda chasglwyr sbwriel McDonalds.

## Rhaglen Sgiliau ar Waith yn helpu pobl ifanc i mewn i fyd gwaith

**Haf 2018 fydd diwedd y daith i Sgiliau ar Waith - rhaglen hyfforddiant hynod o lwyddiannus.**

Am dair blynedd darparwyd rhaglen hyfforddiant gyda thâl am flwyddyn i 12 o hyfforddeion bob blwyddyn, Diploma Achrededig Lefel 2 mewn Rheoli Cadwraeth ac amrywiaeth o dystysgrifau sgiliau eraill gan gynnwys defnyddio llif gadwyn a thynnu trelar. Roedd hefyd yn gyfle i gael tâl wrth weithio ochr yn ochr â staff proffesiynol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Cafodd pedwerydd grŵp ychwanegol o hyfforddeion gyfle i ddilyn rhaglen chwe mis.

Arweiniwyd y bartneriaeth gwerth oddeutu £1 miliwn gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Chyngor Torfaen gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gan ddefnyddio cyllid y Loteri Treftadaeth. Y rhai a gafodd eu recriwtio i ddilyn yr hyfforddiant oedd yr unigolion a fyddai fwyaf tebygol o elwa o'r rhaglen. Byddai'r hyfforddiant hefyd yn ychwanegu at eu gwerth i gyflogwyr ac i'r sector cadwraeth.

Roedd canlyniadau'r prosiect yn well na'r disgwyliadau. Daeth gwerthusiad annibynnol i'r casgliad canlynol: "Mae Sgiliau ar Waith wedi bod yn brosiect llwyddiannus sydd wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol i'r hyfforddeion o safbwynt y profiad a gawsant, y sgiliau a ddatblygwyd ac, yn bennaf oll, o safbwynt cynorthwyo'r hyfforddeion i gael gwaith yn y sector cadwraeth".

Aeth Jonathan Lewis a fu'n dilyn yr hyfforddiant yn ei flaen i weithio gyda'r Ymddiriedolaeth Natur, ac yna fel garddwr gyda'r Awdurdod Lleol: "Yn bendant gwnaeth y rhaglen hyfforddi fy helpu i gael swydd gyda'r Ymddiriedolaeth Natur. Fe wnaeth hefyd fy helpu gyda fy swydd bresennol."



Mae Sarah Bagley wedi defnyddio'r profiad i ddatblygu gyrfaa ar ei liwt ei hun fel hyfforddwr addysg awyr agored a chadwraethydd amgylcheddol, "Roedd y cymwysterau a gawsom ni drwy'r rhaglen hyfforddi yn berffaith ar gyfer dechrau yn y sector".

Roedd cyflogwyr hefyd yn gwerthfawrogi'r cynllun. Dyma sylwadau cyflogwr un o'r rhai a ddilynodd hyfforddiant 'Sgiliau ar Waith':

"Roeddem ni'n gallu dod o hyd i bobl gyda'r sgiliau angenrheidiol, ond yn anffodus, doedden nhw ddim yn dod o'r ardal. Mae gan y gweithiwr fantais ychwanegol os yw eisoes yn gyfarwydd â'r bobl leol, os yw'n gallu siarad Cymraeg neu'n deall Cymraeg neu'n adnabod yr ardal ... mae hynny i gyd yn helpu er mwyn integreiddio'r hyn ydyn ni'n ei wneud yn y gymuned".

**Hyfforddeion Sgiliau ar Waith yn gosod llwybr cerrig.**

## Dewch i gwrdd ag Ella Parkinson – Arweinydd Gwirfoddolwyr

Dyma Ella yn dweud ei hanes:

Ym mis Rhagfyr y llynedd cefais le ar gynllun hyfforddi 'Sgiliau ar Waith' sy'n cael ei ariannu gan y Loteri Treftadaeth. Yna, roedd cael swydd fel Arweinydd Gwirfoddolwyr yn golygu fy mod yn gallu dal i weithio gyda Thîm Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Roedd yn anhygoel!

Mae fy rôl yn rhoi cymaint o gyfleoedd i mi alluogi pobl sydd â diddordeb yng nghefn gwlad i fynd allan a gwneud rhywbeth ymarferol! Mae hefyd yn caniatáu i mi gymryd rhan mewn prosiectau cymunedol o fewn ardaloedd lleol.

Rydw i wedi byw yn Y Fenni ers pan oeddwn i'n 8 oed. Rydw i bob amser wedi bod wrth fy modd allan yn yr awyr agored ac wedi tyfu i fyny yn crwydro'r Parc Cenedlaethol; rydw i'n caru'r Blorens. Pan symudodd McDonalds i'r dref, roedd 'na gynnydd amlwg yn y sbwriel (ac nid yn unig o McDonalds), yn enwedig ym meysydd parcio Blorens. Mi wnes i gysylltu â'r rheolwr a gofyn a allai ei staff helpu gyda'r broblem sbwriel. Dywedodd y byddai wrth ei fodd yn helpu. Felly aeth Sam Harpur, y warden a minnau ati i drefnu sesiwn casglu sbwriel gyda rhai o weithwyr McDonalds. Roedd yn anhygoel! Roedd hi'n dywydd braf, roedd pawb yn frwdfrydig ac roedd 'na fwy na deg o weithwyr oedd yn hapus tu hwnt o gael bod allan drwy'r dydd. Mi wnaethom ni ddewis ardal eang iawn yng nghyffiniau'r Blorens a dyma ni'n casglu tua wyth llond bag o sbwriel. Byddwn yn cynnal sesiwn casglu sbwriel mewn partneriaeth bedair gwaith y flwyddyn. Efallai nad yw hynny'n swnio'n llawer, ond bydd hynny'n clirio llond 32 bag o sbwriel oddi ar y mynydd!

## Adrodd am Faterion Hawliau Tramwy

Gellid sôn am unrhyw faterion yn ymwneud â hawliau tramwy fel difrod i lwybrau troed, camfeydd neu fynegbyst wrth ein Swyddog Hawliau Tramwy, Eifion Jones:

**eifion.jones@beacons-mpa.gov.uk**  
neu ffoniwch **01874 620452**

## Cymhorthfa Gynllunio

Am gyngor ar ddatblygiadau i ddeiliaid tai ac ymholiadau cyffredinol, bob dydd Mercher, o 9.30 -12.00 yb a 1.30-3.00 yb yn Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol, Aberhonddu. Mae apwyntiadau ar gael am gyfnodau o 30 munud, a rhaid eu harchebu ymlaen llaw.

Am apwyntiad neu unrhyw ymholiad cynllunio cyffredinol ffoniwch **01874 620431** os gwelwch yn dda.

## Ymholiadau am y Gronfa Datblygu Cynaliadwy

I gael mwy o wybodaeth a chyngor am y Gronfa hon ewch i <http://www.bannaubrycheiniog.org/cymunedau/cynaliadwyedd-2/ly-gronfa-datblygu-cynaliadwy/> neu cysylltwch naill ai â

**Helen Roderick**  
neu **Ceri Bevan** ar **01874 620471**

**Ebostiach**  
**helen.roderick@beacons-mpa.gov.uk**  
**ceri.bevan@beacons-mpa.gov.uk**

Dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau am grant ar gyfer y chwe mis nesaf

- 1 Tachwedd
- 17 Rhagfyr
- 28 Chwefror

## Arian Chwarae Teg i helpu mwy o ysgolion i ymweld â'r Parc Cenedlaethol



Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn falch iawn o gynnig y cynllun Chwarae Teg unwaith eto i ysgolion lle mae dros 20% o'r plant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Diolch i Forest Holidays, mae arian ar gael i dalu costau cludiant (un bws i bob ysgol) ar gyfer ymweliadau addysgiadol i grwpiau ysgol. Dim ond ffioedd y cwrs sydd angen i ysgolion eu talu. Y llynedd fe wnaeth yr arian helpu deg o ysgolion i ymweld â'r Parc Cenedlaethol.

Bydd arian yn cael ei roi ar sail y cyntaf i'r felin, a rhoddir blaenoriaeth i'r ysgolion hynny sydd heb elwa o'r blaen.

Cysylltwch â [lora.davies@beacons-mpa.gov.uk](mailto:lora.davies@beacons-mpa.gov.uk) i gofrestru eich diddordeb neu i gael rhagor o wybodaeth.

## Adolygu Cynllun Datblygu Lleol

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer datblygu a defnyddio tir o fewn y Parc Cenedlaethol. Mae hefyd yn darparu'r cyd-destun ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol.

Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol presennol gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ym mis Rhagfyr 2013. Mae angen adolygiad llawn o'r cynllun bob pedair blynedd. Yng nghyfarfod Awdurdod y Parc Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2017, cytunodd yr aelodau y gellid dechrau ar y gwaith o adolygu Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Diben yr adolygiad yw darganfod a yw'r Cynllun Datblygu Lleol yn parhau i fod yn gyfredol a pha ddiwygiadau sy'n ofynnol er mwyn ystyried amgylchiadau cenedlaethol a lleol sy'n newid. Mae'r broses yma yn cynnwys nifer o gamau - paratoi, ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd ac eraill sydd â diddordeb.

Os hoffech fod yn rhan o adolygiad y Cynllun Datblygu Lleol, cysylltwch â'n Tîm Strategaeth a Pholisi ar [ldp@beacons-mpa.gov.uk](mailto:ldp@beacons-mpa.gov.uk)

## Cronfa Datblygu Cynaliadwy - Diweddariad

**Unwaith eto eleni mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi buddsoddi £200,000 yn y Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Os ydych chi'n datblygu prosiect gyda'ch cymuned ac os hoffech wneud cais, darllenwch y panel ochr i gael manylion.**

Yng nghyfarfod diweddar y panel cafodd y prosiectau cymunedol canlynol eu cymeradwyo:-

- Clwb Hwyllo Llangors -Prosiect East Creek. Cymorth i ail-strwythuro'r lan a'r llwybr a ddefnyddir i fynd â'r cychod at y llyn.
- Grŵp Sgowtiaid Crucywel – Llawr Newydd. Mae neuadd y Sgowtiaid yn cael defnydd mawr; mae distiau'r llawr presennol yn pydru ac nid yw'r system wresogi'n ddigonol. Nod y prosiect yma yw delio â'r materion hyn er mwyn gwneud y neuadd yn ganolfan gymunedol werthfawr unwaith eto.
- Cadwraeth y Bele - Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Nod y prosiect gwirfoddol yma yw adeiladu 60 gwâl ar gyfer y bele drwy'r Parc Cenedlaethol dros y tair blynedd nesaf a defnyddio technoleg i fonitro bywyd gwylt yr ardal.
- Storio Paneli Ffotofoltaig – Neuadd y Pentref Trap. Nod y prosiect yma yw cynhyrchu cymaint ag sydd bosibl o drydan o'r paneli ffotofoltaig cyfredol, gan storio'r trydan mewn batris i'w defnyddio pan na fydd y paneli'n cynhyrchu.
- Gardd Henry Vaughan - CC Tal-y-bont ar Wysg. Cefnogi gwaith adnewyddu yng ngardd berlysiâu Henry Vaughan.
- Arddangos Doniau'r Ifanc – Gŵyl Jazz Aberhonddu. Diben y prosiect yma yw hyrwyddo talent pobl ifanc yn yr ŵyl eleni.
- Taith Cwch/Cwch Gwaith – Ben Fuest. Cymorth gydag offer diogelwch a chysgod rhag y glaw ar gyfer y prosiect twristiaeth/datblygu economaidd yma - cwch newydd ar y rhan o'r gamlas rhwng Aberhonddu a Llanygindir.



Jac y Neidiwr yn Island Fields, Aberhonddu.

## Angen cymorth i reoli 'Goresgynwyr y Parc Cenedlaethol'

**Ydych chi wedi gweld y tair rhywogaeth estron oresgynnol: Clymog Japan sy'n difetha palmentydd, Jac y Neidiwr sy'n rheoli glannau afonydd a'r Efwr Enfawr sy'n beryglus i iechyd? Os ydych chi wedi eu gweld - rydym ni eisieu gwybod!**

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cynnal prosiect peilot, 'Goresgynwyr y Parc Cenedlaethol', sy'n arolygu ac yn rheoli rhywogaethau o blanhigion estron a goresgynnol yn nalgylchoedd afonydd Wysg a Tawe. Byddwn yn gweithio gyda phrosiectau a sefydliadau eraill i ddatblygu dull partneriaeth o ddelio â rhywogaethau goresgynnol ac yn edrych ar sut y gellir rheoli'r goresgynwyr estron yma yn yr hir dymor yn y dyfodol.

Bydd y prosiect yn delio â'r rhywogaethau hyn ar dir Awdurdod y Parc Cenedlaethol ac yn rhoi cyngor i dirfeddianwyr eraill, gan eu helpu i'w hadnabod a'u cynghori ynglŷn â'r dulliau gorau o'u rheoli. Rydym yn awyddus i weithio gyda phartneriaid, tîrfeddianwyr, gwirfoddolwyr a'r cyhoedd er mwyn atal y tair rhywogaeth yma rhag ymluedu ac osgoi'r colledion aruthrol maen nhw'n ei achosi i gynefinoedd a bioamrywiaeth.

Er mwyn gwneud hyn rydym angen eich help chi. Oes gennych chi gofnodion diweddar o'r tair rhywogaeth yma? Ydych chi wedi clirio unrhyw un o'r rhywogaethau yma ar eich darn arbennig chi o afon? Ydych chi'n perthyn i grŵp cymunedol sydd yn gwneud y math yma o waith yn barod sy'n neu'n dymuno gwneud hynny?

**Am fwy o wybodaeth am y prosiect cysylltwch â Beverley Lewis ar 07854997508 neu e-bostiwch [beverley.lewis@beacons-npa.gov.uk](mailto:beverley.lewis@beacons-npa.gov.uk)**

## Bannau Brycheiniog - Y Gyrcfan Orau yng Nghymru!

**Roedd Bannau Brycheiniog yn falch tu hwnt o dderbyn y teitl 'Cyrchfan Orau' Cymru yng Ngwobrau Twristiaeth Cenedlaethol Cymru 2018 yn y Celtic Manor yn gynharach eleni.**

Mae'r gwobrau hyn, sy'n cael eu trefnu gan Croeso Cymru, yn dathlu goreuon twristiaeth Cymru drwy roi amlygrwydd i fusnesau twristiaeth a chyflawniadau'r diwydiant.

Dywedodd Croeso Cymru fod safon yr ymgeiswyr eleni yn eithriadol o uchel. Mae'r wobr yn cydnabod y gwaith caled, yr ymroddiad a'r penderfyniad a ddangoswyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Twristiaeth Bannau Brycheiniog, Awdurdodau Lleol a'r holl wahanol fusnesau o fewn yr ardal.



## Newyddion gan Bartneriaeth Defnydd Tir y Mynyddoedd Duon



**Ers ein diweddariad yn y gwanwyn, mae llawer wedi bod yn digwydd. Mae'r Rhaglen Rheoli Rhedyn wedi dechrau, a'r nod yw trin rhedyn mewn nifer o leoliadau allweddol.**

Nod y Bartneriaeth yw torri, rholio a thorri tua 140 hectar o redyn ddwywaith y flwyddyn am y ddwy flynedd nesaf a defnyddio dulliau arbrolfodol er mwyn canfod ffordd o reoli'r rhywogaeth oresgynnol yma. Mae elfen Rheoli Mawndir y prosiect - sef adfer a diogelu mawn a phridd mwynol agored mewn sawl lleoliad allweddol - yn dod yn ei blaen yn dda yn ogystal â gwaith adfer llwybrau cerdded, sefydlogi mawndir a rheoli cynefinoedd y gweundir.

Nawr mae'r Bartneriaeth yn cyflogi dau geidwad, Matt ac Amy, sy'n gweithio ar y cyd â Cyfoeth Naturiol Cymru, wardeniaid Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Natural England, porwyr a thirfeddianwyr ac yn helpu ymwelwyr sy'n dod i'r ardal. Gallwch ddilyn y ddau geidwad ar Twitter @RangersBMLUP

Erbyn hyn mae Rhaglen Hyfforddi Llysgenhadon ar gyfer gweithredwyr twristiaeth leol wedi ei sefydlu gyda 17 o Lysgenhadon Mynydd a Gweundir, ac mae'r rhaglen 'buddsoddi mewn sgiliau' arfaethedig hefyd yn mynd o nerth i nerth. Mae gwaith gydag ysgolion lleol i adrodd hanes ffermio mynydd yn y Mynyddoedd Duon yn ehangu ac mae nifer o sesiynau eisoes wedi'u cynnal o fewn dalgylch y Mynyddoedd Duon. Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am raglenni addysg a gweithgareddau sydd ar gael cysylltwch ag : [enquiries@beacons-npa.gov.uk](mailto:enquiries@beacons-npa.gov.uk) neu ffoniwch 01874 624437.



Mae Partneriaeth Defnydd Tir y Mynyddoedd Duon yn fenter gydweithredol unigryw, sy'n anelu at hyrwyddo gwelliant parhaus, gwaith adfer a rheoli adnoddau naturiol y Mynydd Duon yn gynaliadwy, ardal sy'n cynnwys dros 26,600 hectar o gynefin yr ucheldir a'r iseldir. Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am y Bartneriaeth a'i gwaith ewch i: <http://www.blackmountains.wales/>

**Matt ac Amy, dau Geidwad newydd y Mynyddoedd Duon.**



Pili-palaod gwyn blaen oren yn paru.



Fan Foel cyn y gwaith cadwraeth Gwanwyn 2017. Fan Foel ar ôl y gwaith Gwanwyn 2018.

## Gwneud amser i “aros a syllu”

**Beth am ddilyn cyngor y bardd o Gymro WH Davies a chymryd ychydig eiliadau i aros, syllu a mwynhau bywyd gwyllt Bannau Brycheiniog?**

Does dim rhaid i chi fod yn arbenigwr a does dim rhaid i chi fynd i dir gwyllt i fwynhau natur. Mae amgylchedd naturiol y Parc Cenedlaethol yn rhyfeddu ac yn ysbrydoli. Mae ei dirweddau yn adnabyddus, a hefyd y rhywogaethau eiconig sydd wedi ymgartrefu yma. Dim ond rhan o'r darlun sy'n rhoi'r ymdeimlad o wir fodlonrwydd a phleser a geir yn aml wrth gysylltu â natur. Mae'r amgylchedd naturiol hefyd yn rhoi'r hyn sydd eu hangen arnom i fyw ac i ffynnu; yr aer rydyn ni'n ei anadlu, y bwyd rydyn ni'n ei fwyta, y dŵr rydyn ni'n ei yfed a hefyd llu o fanteision eraill. Ac eto mae ein hamgylchedd naturiol yn wynebu pwysau a bygythiadau sylweddol, ac fel llawer o'r DU ac Ewrop, mae Cymru'n parhau i wynebu colledion sylweddol o safbwynt bioamrywiaeth.

Ochr yn ochr ag ymdrechion ledled Cymru, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn rhan o bartneriaeth leol sy'n datblygu Cynllun Gweithredu Adfer Natur ar gyfer y Parc Cenedlaethol. Yng nghyd-destun fframwaith cyfreithiol amgylcheddol newydd Cymru, bydd y cynllun yn arwain sydiadau ar gyfer adfer natur a gweithredu ym mhob rhan o'r Parc. Maes o law, bydd y cynllun ar gael ar wefan Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

**Er mwyn cael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Ecoleg ar [ecology@beacons-npa.gov.uk](mailto:ecology@beacons-npa.gov.uk)**

## Safleoedd Oes Efydd wedi'u gwarchod

**Mae Bannau prydferth Sir Gaer yn gyrchfan boblogaidd i nifer gynyddol o gerddwyr ac mae hyn wedi arwain at erydu rhai safleoedd archeolegol bregus.**

Mae wardeiniaid Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi bod yn gweithio'n galed yn atgyweirio'r difrod i ddau safle pwysig o'r Oes Efydd ar gopa Fan Foel, uwchben Llyn y Fan Fach. Bydd ymwelwyr â'r ardal yn ymwybodol o nifer o domenni claddu neu gameddau o garreg neu bridd ar hyd y llwybr; sy'n aml mewn mannau uchel trawiadol. Diolch i waith Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed yn 2004, cloddwyd un o'r tomenni yma, a chadarnhawyd bod y lleoliadau dramatig yma wedi bod yn lleoedd pwysig yn ystod yr Oes Efydd. Datgelodd yr archwiliadau yn Fan Foel mai safle claddu oedolyn (gwraig mae'n debyg) a dau blentyn oedd hwn. Roeddent wedi cael eu hamlogsi a'u claddu gyda'i gilydd mewn bedd carreg a baratowyd yn ofalus, tua 4000 mlynedd yn ôl. Roedd nwyddau wedi cael eu claddu gyda nhw, gan gynnwys llestr crochenwaith i ddal bwyd, offer cerrig, pin o asgwrn a thusw o flodau'r erwain. Mae'r ffaith fod y beddrod wedi cael ei addasu'n ddiweddarach a'i ddefnyddio eto fel man claddu yn dangos sut yr oedd yr henebion yma'n dal i gael eu defnyddio a'u hanrhydeddu am gannoedd o flynyddoedd ar ôl cael eu hadeiladu gyntaf.

Erbyn hyn mae'r safleoedd ar Foel y Fan a beddrodau Twr y Fan Foel gerllaw yn Henebion Cofrestredig. Rhan o waith cadwraethol gofalus y wardeiniaid oedd gosod haen amddiffynnol o dywodfaen ar draws y tomenni, a thywarchen drosti, er mwyn diogelu'r olion bregus oddi tanynt. Cafodd y dywarchen ei chynaeafu'n lleol yn ystod gwaith ar y llwybrau cerdded a chafodd y gwaith atgyweirio ei selio gan haen o geoiwt, sef math o fat naturiol ysgafn a diraddiadwy, i helpu i atgyferthu'r dywarchen. Bydd hyn yn helpu i ddiogelu'r safleoedd pwysig yma fel y gall cenedlaethau'r dyfodol eu mwynhau, ac i gofio am etifeddiaeth archeolegol gyfoethog Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Meddai Steffan Edwards, Warden Bannau Brycheiniog:

“Roedd hyn yn rhywbeth newydd i ni fel wardeiniaid ac roedden ni'n edrych ymlaen at y sialens. Roedden ni'n gweithio i fyny yna ym mhob tywydd, o niwl trwchus a glaw, i ddyddiau heulog a sych. Roedden ni'n gwybod pa mor bwysig oedd y safle ac roedden ni'n awyddus i wneud gwaith da er mwyn ei warchod ar gyfer y dyfodol.”

## Newydd! Geolwybr Cribarth

**Ydych chi'n chwilio am daith gerdded newydd yn y Parc Cenedlaethol? Yna rhowch gynnig ar Geolwybr Cribarth sy'n cychwyn ym Mharc Gwledig Craig-y-Nos.**

Mae'r daith gylchol ychydig dros dair milltir o hyd ac yn archwilio llethrau creigiog y bryn trawiadol sy'n codi uwchben Craig-y-Nos. Mae Cribarth o fewn Geoparc y Fforest Fawr; sy'n ymestyn dros hanner gorllewinol y Parc Cenedlaethol ac felly'n sicrhau tirwedd ddramatig; yn yr achos yma tirwedd o greigiau calchfaen a hen dramffyrdd - olion gorffennol diwydiannol yr ardal. Mae copiau o daflen y Geolwybr ar gael am ddim i fusnesau twristiaeth a gellir eu casglu o Barc Gwledig Craig-y-Nos, Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol neu drwy gysylltu ag alan.bowring@beacons-npa.gov.uk.



## Eisiau ystafell gyfarfod yn Aberhonddu?

Mae'r canlynol ar gael i'w llogi gennym:

- Ystafell gynhadledd
- Ystafell Aelodau Fideo-gynadledda
- Ystafell Ymgynnull Fach

Gwasanaeth Arlwyio ar gael  
Am fanylion cysylltwch â'r  
Dderbynfa 01874 624437  
neu edrychwch ar  
<http://www.bannaubrycheiniog.org/yr-awdurdod/llogi-ystafell/>

## Pabell Fawr Gymunedol Ar Gael

Mae cynllun benthg y Babel Fawr  
Gymunedol yn cynnig cyfle i grwpiau,  
ysgolion, elusennau a sefydliadau  
dielw eraill o fewn y Parc  
Cenedlaethol ddefnyddio'r Babel  
Fawr Gymunedol 20'x30' yn eu  
digwyddiadau lleol. Gofynnir am rodd.

I gael ffurflenni archebu,  
cysylltwch â Ceri Bevan ar  
01874 620471  
[ceri.bevan@beacons-mpa.gov.uk](mailto:ceri.bevan@beacons-mpa.gov.uk)

## Gweddarllediadau

Mae holl gyfarfodydd yr Awdurdod  
ar gael i'w gweld trwy ficrowefan ein  
gweddarllediadau. Ewch i:

<http://www.bannaubrycheiniog.org/yr-awdurdod/gweddarlledu/>

## Digwyddiadau Mis Medi – Mis Hydref 2018

I weld manylion a rhestr estynedig o weithgareddau a digwyddiadau yn y Parc Cenedlaethol ewch i <http://www.breconbeacons.org/events?lan=cy>

### Digwyddiadau a chysiau yng Nghanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol, Libanus.

Er mwyn cael rhagor o fanylion ac i archebu lle cysylltwch â'r Ganolfan Ymwelwyr ar 01874 623366 neu e-bostiwch [vcuser@beacons-mpa.gov.uk](mailto:vcuser@beacons-mpa.gov.uk)

#### Dydd Sadwrn 29 Medi

##### Canfod Eich Ffordd: Cyflwyniad i Ganfod Cyfeiriad

Mae'r cwrs undydd yma ar gyfer unrhyw un sydd wedi edrych ar fap ac wedi pendroni ymhle i ddechrau. Trefnir gan Manzoku Climbing & Mountaineering, 9.45am-4.30pm Cost: £35.00 yr un. Rhaid archebu lle

#### Dydd Gwener 26 Hydref

##### Noson o Syllu ar y Sêr

Beth am fwynhau noson o weithgareddau syllu ar y sêr; gan gynnwys taith o amgylch awyr y nos yn ein planetariwm symudol yng nghwmni Awyr Dywyll Cymru a sgysiau hynod ddifyr gan aelodau o Gymdeithas Seryddol Caerdydd. Bydd arddangosiad hefyd o feteoritau.

Os bydd yr awyr yn glir gallwch weld Awyr Dywyll gydnabyddedig Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog drwy amrywiaeth o delesgopau.

Dechrau am 7pm Tocynnau: £15 - yn cynnwys parcio, coffi a chacen. Archebwch ar-lein.


<http://www.breconbeacons.org/events>

#### Dydd Sadwrn 27 a Dydd Sul 28 Hydref.

##### Diogelwch ar y Bryniau

Brecon Leisure Centre, Penlan, Brecon, LD3 9SR

Mae'r cwrs yma wedi'i achredu gan NNAS ac mae'n arwain at eu Gwobr Efydd Canfod Cyfeiriad. Mae'r cwrs yn cael ei drefnu gan Manzoku Climbing & Mountaineering, 9.45am-4.30pm. Cost £115.00 yr un. Rhaid archebu lle.



## A-Y Eich Awdurdod

Eich canllaw i gysylltu â'r Awdurdod am wybodaeth neu wasanaethau

Mae ein Canolfan Ymwelwyr a'r Parc Gwledig ar agor bob dydd o'r flwyddyn ac eithrio Dydd Nadolig. Mae mynediad am ddim ond codir tâl am barcio.

### Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol

Libanus, ger Aberhonddu  
LD3 8ER

- Gwybodaeth
- Ystafelloedd Te a Bwyty
- Siop grefft
- Toiledau
- Hurio Ystafelloedd
- Priodasau

Ffôn: 01874 623366

<http://www.breconbeacons.org/national-park-visitor-centre?lan=cy>

### Parc Gwledig Craig-y-nos

Pen-y-cae, Cwm Tawe SA9 1GL

- Ystafelloedd Te a Bwyty - Changing Seasons  
Ffôn: 01639 731498
- Toiled i bobl anabl gyda lle i newid clwt y baban 24 awr
- Hurio ystafelloedd
- Gofod arddangos
- Canolfan grefft
- Stiwio wydr
- Stiwio a chysiau ffotograffiaeth


Ffôn: 01874 624437

[enquiries@beacons-npa.gov.uk](mailto:enquiries@beacons-npa.gov.uk)  
<http://www.breconbeacons.org/craig-y-nos-country-park-visitor-centre?lan=cy>

Gwasanaeth neu Dîm	Prif Gyswllt/Swyddogion	Manylion Cyswllt	Rhif ffôn
Ymholiadau cyffredinol	Derbynfa	<a href="mailto:enquiries@beacons-npa.gov.uk">enquiries@beacons-npa.gov.uk</a>	01874 624437
Addysg, Dehongli a Gwybodaeth	Derbynfa	<a href="mailto:enquiries@beacons-npa.gov.uk">enquiries@beacons-npa.gov.uk</a>	01874 624437
Adnoddau Dynol	Liz Lewis	<a href="mailto:elizabeth.lewis@beacons-npa.gov.uk">elizabeth.lewis@beacons-npa.gov.uk</a>	01874 620436
Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol, 'Y Ganolfan Fynydd', Libanus	Gwasanaethau Ymwelwyr	<a href="mailto:npvc@beacons-npa.gov.uk">npvc@beacons-npa.gov.uk</a>	01874 623366
Cyfathrebu	James Williams	<a href="mailto:communications@beacons-npa.gov.uk">communications@beacons-npa.gov.uk</a>	01874 620406 01874 620420
Cyfarwyddwr Cynllunio	Christopher Morgan	<a href="mailto:danielle.french@beacons-npa.gov.uk">danielle.french@beacons-npa.gov.uk</a>	01874 620428
Cymunedau cynaliadwy	Ceri Bevan/Helen Roderick Francesca Bell	<a href="mailto:communities@beacons-npa.gov.uk">communities@beacons-npa.gov.uk</a>	01874 624437
Cyllid	Elaine Standen	<a href="mailto:elaine.standen@beacons-npa.gov.uk">elaine.standen@beacons-npa.gov.uk</a>	01874 620467
Cynllun Rheoli	Matt Scanlon	<a href="mailto:matthew.scanlon@beacons-npa.gov.uk">matthew.scanlon@beacons-npa.gov.uk</a>	01874 620465
Ecoleg	Brad Welch	<a href="mailto:bradley.welch@beacons-npa.gov.uk">bradley.welch@beacons-npa.gov.uk</a>	01874 620411
Gwasanaethau Democraidd a Swyddfa	Julia Gruffydd	<a href="mailto:julia.gruffydd@beacons-npa.gov.uk">julia.gruffydd@beacons-npa.gov.uk</a>	01874 620400
Geoparc Fforest Fawr	Alan Bowring	<a href="mailto:alan.bowring@beacons-npa.gov.uk">alan.bowring@beacons-npa.gov.uk</a>	01874 620415
Gorfodi Cynllunio	Kathy Jenkins/Alex Ham	<a href="mailto:enforcement@beacons-npa.gov.uk">enforcement@beacons-npa.gov.uk</a>	01874 620416
Gweinyddiaeth y Gwasanaethau Cynllunio	Jane Pashley	<a href="mailto:planning.enquiries@beacons-npa.gov.uk">planning.enquiries@beacons-npa.gov.uk</a>	01874 620422
Gwirfoddoli	Ilona Carati	<a href="mailto:ilona.carati@beacons-npa.gov.uk">ilona.carati@beacons-npa.gov.uk</a>	01874 620451

## Cadwch mewn cysylltiad â'r diweddaraf

Erbyn hyn mae hyd yn oed mwy o ffyrdd i gael gwybod y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

 **Gallwch drydar â ni ar @croesobannaub**  
.....

**Dilynwch ni drwy Facebook**  
[www.facebook.com/bannaubrycheiniog](http://www.facebook.com/bannaubrycheiniog)  
.....

**Gweler ein Youtube Channel Videos**  
[www.youtube.com/user/BreconBeaconsNPA](http://www.youtube.com/user/BreconBeaconsNPA)  
.....

**www.instagram.com/breconbeacons**

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian  
Aberhonddu, Powys LD3 7HP

<http://www.bannaubrycheiniog.org/>

ffotograffau © APCBB

## A-Y Eich Awdurdod

Eich canllaw i gysylltu â'r Awdurdod am wybodaeth neu wasanaethau

Gwasanaeth neu Dîm	Prif Gyswilt/Swyddogion	Manylion Cyswilt	Rhif ffôn
Hawliau Tramwy	Eifion Jones	eifion.jones@beacons-npa.gov.uk	01874 620452
Parc Gwledig Craig-y-nos Pen-y-Cae	Derbynfa	enquiries@beacons-npa.gov.uk	01874 624437
Prif Weithredwr	Julian Atkins	jean.packer@beacons-npa.gov.uk	01874 620469
Strategaeth a Pholisi Cynllunio	Helen Lucocq	helen.lucocq@beacons-npa.gov.uk	01874 620442
Technoleg Gwybodaeth	Paul Funnell	paul.funnell@beacons-npa.gov.uk	01874 620459
Treftadaeth	Alice Thorne Janet Poole	alice.thorne@beacons-npa.gov.uk janet.poole@beacons-npa.gov.uk	01874 620418 01874 620413
Twristiaeth gynaliadwy	Richard Tyler	richard-tyler@beacons-npa.gov.uk	01874 620405
Y Gwasanaeth Wardeniaid	Judith Harvey	judith.harvey@beacons-npa.gov.uk	07854 997510

